# Sportsmatch Cymru

You must include a contract of agreement between you and your sponsor with your application form. An example contract is provided below for your information. An electronic copy can be found on the Sports Council for Wales website in the 'Grants and Funding' section or alternatively please contact your Regional Office.

## EXAMPLE: CONTRACT OF AGREEMENT

An agreement made on the ........... day of ............. 200 ............ between (name of sponsor) (hereinafter called "the Sponsor") and (name of sports organisation) (hereinafter called "the Association").

### Whereby it is agreed

1. In consideration of the agreement by the Sponsor to pay the Association the sum of (amount of sponsorship) to sponsor (name of activity/event) the Association agrees to provide the credits and benefits set out below.

2. From (day, month, year) to (day month year), the Association agrees:

    2.1 to credit the Sponsor by giving the Sponsor's name and details of value of the sponsorship in all Association press releases concerning (the event);

    2.2 to give the Sponsor prominent acknowledgement on the front cover and on the centre pages of the programme relating to (the event);

    2.3 to give the Sponsor prominent acknowledgement on the poster for (the event);

    2.4 to co-ordinate a press launch announcing the sponsorship by the Sponsor at a time and place to be agreed by both parties. The costs of such a press launch will be borne by the Sponsor.

### Payment

3. Payment of the said sum of (amount of sponsorship) shall be made in full no later than the first day of (month, year).

4. The payment shall be subject to Value Added Tax at the current rate which shall be payable on receipt of the Association's invoice for the same.

### Other Agreements

5. It is agreed that all matters relating to the administration of the (event) shall remain the exclusive responsibility of the Association.

6. It is agreed that when the (event) is being publicised or covered by any medium such as radio or television, the Association's best endeavours will be directed towards ensuring that the Sponsor is credited as the sponsor of the (event) but it is accepted by the Sponsor that a separate agreement may have to be negotiated with all the parties concerned.

7. It is agreed that the Sponsor will be granted first option to renew sponsorship of the (event) at a cost to be agreed. The Sponsor will give its decision on such renewal not less than (number of days/months) before the (insert year) (event).

8. In the event of the cancellation of the (event) for whatever reason, this agreement shall be null and void. The Association shall forthwith return to the Sponsor the balance of the sum referred to in Clause 3 and paid to the Association together with full accounting of the monies expended from the said sum.

9. This agreement is made solely with the (name of Sponsor) and, except with the written permission of the Association shall not be assignable.

### Agreed and signed by the parties as follows:

Signed ................................................................ Dated ..............................
(the sporting organisation)

Position ................................................................

Signed ................................................................ Dated ..............................
(the Sponsor)

Position ................................................................

# Sportsmatch Cymru

Mae'n rhaid i chi gynnwys cytundeb rhyngoch chi a'ch noddwr gyda'ch ffurflen gais. Darperir enghraifft o gytundeb o'r fath isod, er gwybodaeth i chi. Ceir copi electronig yng ngwefan Cyngor Chwaraeon Cymru, yn yr adran 'Grantiau a Chyllid', neu gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol.

## ESIAMPL: CYTUNDEB

Cytundeb a lunnir ar y ........ dydd o ........ 200 ........ rhwng (enw'r noddwr) (a elwir wedi hyn yn y ddogfen hon yn "y Noddwr") a (enw'r sefydliad chwaraeon) (a elwir wedi hyn yn y ddogfen hon yn "y Sefydliad").

### Cytunir trwy hyn

1. Wrth ystyried y cytundeb, bydd y Noddwr yn talu i'r Sefydliad swm o (swm y nawdd) er mwyn noddi (enw'r gweithgaredd / achlysur) ac mae'r Sefydliad yn cytuno i ddarparu'r manteision a'r elfennau a nodir isod.
2. O (diwrnod, mis, blwyddyn) hyd at (diwrnod, mis, blwyddyn), mae'r Sefydliad yn cytuno i:
   - 2.1 cydnabod y Noddwr drwy nodi enw'r Noddwr a manylion gwerth ei nawdd yn holl ddatganiadau i'r wasg y Sefydliad yn ymwneud â (yr achlysur);
   - 2.2 rhoi cydnabyddiaeth amlwg i'r Noddwr ar glawr blaen a thudalennau canol y rhaglen gysylltiedig â (yr achlysur);
   - 2.3 rhoi cydnabyddiaeth amlwg i'r Noddwr ar y poster ar gyfer (yr achlysur);
   - 2.4 cydlynu lansiad i'r wasg yn cyhoeddi'r nawdd gan y Noddwr ar amser ac mewn lleoliad a gytunir gan y ddwy ochr. Telir costau lansiad o'r fath gan y Noddwr.

### Talu

3. Telir y swm a nodir (swm y nawdd) yn llawn erbyn diwrnod cyntaf (mis, blwyddyn) fan bellaf.

4. Bydd y taliad yn ddarostyngedig i Dreth Ar Werth yn unol â'r gyfradd gyfredol, a ad-delir wedi derbyn anfoneb y Sefydliad amdano.

### Cytundebau Eraill

5. Cytunir bod yr holl faterion perthnasol i weinyddu'r (achlysur) yn parhau'n gyfrifoldeb y Sefydliad yn unig.

6. Pan fydd yr (achlysur) yn cael cyhoeddusrwydd neu sylw gan unrhyw gyfrwng fel y teledu neu'r radio, bydd y Sefydliad yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod y Noddwr yn cael ei gydnabod fel noddwr yr (achlysur), ond mae'r Noddwr yn derbyn y bydd raid trefnu cytundeb ar wahân gyda phawb perthnasol.

7. Cytunir mai'r Noddwr fydd yn cael y cynnig cyntaf i adnewyddu'r nawdd ar gyfer yr (achlysur), ar gost i'w chytuno. Bydd y Noddwr yn gwneud penderfyniad ynghylch adnewyddu o'r fath ddim llai na (nifer y dyddiau / misoedd) cyn yr (achlysur) (nodwch y flwyddyn).

8. Os bydd raid canslo'r (achlysur) am ba reswm bynnag, bydd y cytundeb hwn yn annilys. Bydd y Sefydliad yn dychwelyd rhag blaen i'r Noddwr falans y swm y cyfeirir ati yng Nghymal 3 ac a dalwyd i'r Sefydliad, ynghyd â chyfrifon llawn ar gyfer yr arian a wariwyd o'r swm dywededig.

9. Gwneir y cytundeb hwn gyda (enw'r Noddwr) yn unig a dim ond drwy sicrhau caniatâd ysgrifenedig y Sefydliad y gellir ei drosglwyddo.

### Cytunwyd ac Arwyddwyd gan y ddwy ochr, fel a ganlyn:

Arwyddwyd ................................................ Dyddiad ........................
(y sefydliad chwaraeon)

Swydd ................................................

Arwyddwyd ................................................ Dyddiad ........................
(y Noddwr)

Swydd ................................................